

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn arwain eiriolaeth a chynrychiolaeth annibynnol gyda phlant a phobl ifanc, ac ar eu rhan. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc i nodi sut a gan bwy yr hoffent gael eu cynrychioli, ac yna gweithio gyda nhw i gynrychioli eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae hefyd yn cynnwys helpu plant a phobl ifanc i ddeall canlyniadau'r gynrychiolaeth. Mae'r safon yn cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc i werthuso eu profiadau o'r cymorth eiriolaeth maent wedi'i ddefnyddio a'r systemau maent wedi dod ar eu traws.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. ymgysylltu â phlant neu bobl ifanc, a'u hannog i gymryd rhan yn seiliedig ar lefel eu datblygiad
2. annog plant neu bobl ifanc i gael gafael ar wybodaeth am y prosesau, ac i drafod yr wybodaeth honno
3. grymuso plant neu bobl ifanc i gyfathrebu eu teimladau, eu hanghenion, a'u dewisiadau am eiriolaeth a chynrychiolaeth
4. rhoi gwybodaeth hygyrch i blant neu bobl ifanc am eiriolaeth
5. cynnwys eraill mewn trafodaethau gyda chaniatâd plant neu bobl ifanc
6. gwneud yn siŵr bod plant neu bobl ifanc yn gallu penderfynu siarad drostynt eu hunain, defnyddio eiriolwr, neu wneud y ddau
7. gweithio ar y cyd â phlant neu bobl ifanc i nodi'r hyn y gallai eraill ei ddweud mewn ymateb i'w barn, a sut y gallai hyn effeithio ar eu cynrychiolaeth
8. gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau plant neu bobl ifanc a pharchu eu hawl i fynegi eu barn
9. arwain a modelu arferion sy'n trin plant neu bobl ifanc â pharch
10. sicrhau y cytunir ar amserlenni ar gyfer y camau sy'n cael eu cymryd ar ran plant neu bobl ifanc, a sicrhau eu bod yn cael gwybod am oedi a'i effaith
11. gweithio ar y cyd â phlant neu bobl ifanc ac eraill i gytuno ar unrhyw gamau dilynol ar ddiwedd pob cyswllt
12. trafod unrhyw wahaniaethau o ran barn a phenderfynu ar y ffordd orau ymlaen gyda'ch gilydd
13. caniatáu mynediad i blant neu bobl ifanc at gofnodion, gan sicrhau eu bod yn eu deall ac yn gallu herio gwallau
14. cefnogi plant neu bobl ifanc â phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt, eu goblygiadau, a'r camau nesaf
15. arwain a modelu ymarfer sy'n parchu preifatrwydd a chyfrinachedd plant neu bobl ifanc
16. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i werthuso eu profiad o eiriolaeth a chefnogi'r systemau sydd ar waith
17. gweithio ar y cyd â phlant neu bobl ifanc i wella gwasanaethau eiriolaeth, a dangos sut mae eu cyfraniad yn fuddiol i eraill ac yn dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
18. gweithio gydag eraill i hybu hawliau plant neu bobl ifanc a sicrhau mynediad

Eirioli gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu rhan

---

cyfartal at wasanaethau eiriolaeth

19. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau ynghylch eiriolaeth gyda phlant neu bobl ifanc, ac ar eu rhan

20. meddylwch ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i eirioli gyda phlant neu bobl ifanc, ac ar eu rhan

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae sicrhau bod gwybodaeth ar gael i blant a phobl ifanc ac eraill
2. ffyrdd o rymuso plant a phobl ifanc i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i gyfathrebu'r penderfyniadau hynny
3. strategaethau ar gyfer cyfathrebu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu di-lafar
4. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth eirioli gyda phlant a phobl ifanc, ac ar eu rhan
5. yr ystod o wasanaethau ac adnoddau eirioli lleol a chenedlaethol, a sut mae cael gafael arnynt
6. egwyddorion a dulliau eirioli
7. sut mae cyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth i wahanol gynulleidfaoedd mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai digidol
8. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i eirioli gyda phlant a phobl ifanc, ac ar eu rhan
9. y gwahanol fathau o fforymau gwneud penderfyniadau y gallai plant a phobl ifanc fod yn gysylltiedig â nhw
10. agweddau at ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
11. sut y gall ymddygiad gyfleu straen a thrallod
12. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y gwasanaethau eiriolaeth sydd eu hangen ar gyfer plant a phobl ifanc
13. sut mae delio â cheisiadau am eiriolaeth mewn ffordd sy'n cefnogi rheoleiddio emosiynol
14. dylanwad diwylliant a chefnidir ar y gwasanaethau eiriolaeth sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yn ogystal â'r rhai y maent yn gofyn amdanynt
15. sut mae derbyn, monitro a gwerthuso adborth am wasanaethau eirioli
16. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i fynegi pryderon a defnyddio gweithdrefnau cwyno
17. y ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth drafod a chytuno ar newidiadau i eiriolaeth
18. theorïau sy'n berthnasol i eirioli gyda phlant a phobl ifanc, ac ar eu rhan
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer eirioli gyda phlant a phobl ifanc, ac ar eu rhan
20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth,

Eirioli gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu rhan

---

cynhwysiant a hawliau wrth eirioli gyda phlant a phobl ifanc, ac ar eu rhan

21. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth eirioli gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu rhan, a sut i fynd i'r afael â hyn

22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth eirioli gyda phlant a phobl ifanc, ac ar eu rhan

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Eirioli gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu rhan

<b>Datblygwyd gan</b>	Skills for Care & Development
<b>Fersiwn rhif</b>	1
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	31 Ion 2026
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	31 Ion 2031
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Skills for Care and Development
<b>RCU gwreiddiol</b>	HSCCLD434
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
<b>Cyfres/Set</b>	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
<b>Geiriau Allweddol</b>	Eirioli, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu